

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom**  
**Nos Fawrth, Gorffennaf 21, 2020 am 8:30yh o'r gloch ac ar y 23ain oherwydd diffyg amser.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Preseanol** Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Gerallt Griffith. Hefyd Henry M. Edwards.

23/7/2020. Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Barry Jones, Rhun Jones, Emlyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards

### **1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Rhun Prys Jones, Geraint Evans, Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams.

23/7/2020. Cynghorwyr: Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Karen G. Goswell, Huw A. Evans.

### **3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 16, 2020**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

### **5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 16, 2020**

Eitem 12.ch. Llythyr ateb (15/7/2020) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd trefniadau yn cael eu gwneud i docio'r gwrychoedd pob ochr i'r ffordd wrth Ysgol Llanfachreth. Roedd gohebiaeth rhwng Priffyrdd ac Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd i dorri coed ar dir yr ysgol oherwydd roeddynt gyda'r clwy 'ash die back'. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y mater hefyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

### **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (26/6/2020) oddi wrth Adran Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn amgáu 4ydd Bwletin 'Gyda'n Gillydd'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION GORFFENNAF 21, 2020

b. Llythyr (28/6/2020) oddi wrth Rhun Jones anfonwyd i'r aelodau. Gydag Ysgol Brithdir yn nol ar y farchnad mae yn awgrymu i Gyngor Gwynedd ail edrych ar eu hobsesiwn o gae ysgolion gwledig a chario plant y wlad i Ddolgellau am wersi. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyfaddef yr arian yr oeddent am safio yn ddim ond ychydig.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (29/6/2020) oddi wrth Karen Glyn Goswell anfonwyd i'r aelodau. Gyda datblygiad technoleg sydd yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion, technoleg nid oedd ar gael ychydig o fisoedd yn ôl, mae Karen yn cytuno â Rhun i gael Cyngor Gwynedd ystyried ail-edrych ar ddefnyddio ysgolion bach.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cau'r ysgolion bach i roi yr addysg orau i'r plant

c. Llythyr (1/7/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Newyddlen Etholiad Mehefin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (2/7/2020) oddi wrth Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd. Gyda'r Llywodraeth am lacio rheolau ymwneud a Covid19, bydd bobol yn gallu teithio i ble bynnag yr hoffent fynd gyda mwy o ymwelwyr yn dod i'r Sir. Oherwydd hyn, mae'n gofyn am ein sylwadau beth ddylai'r Cyngor ei wneud i leddfu pryderon gyda'r economi yn ail agor.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (3/7/2020 a dogfennau oddi wrth Galloway Estates Ltd ar ran Airwave Solutions Ltd ynglŷn â'r bwriad i wella safle NWA151. EAS0512a ar dir Coed y Brenin, Abergeirw. Wedi iddynt gwblhau ymgynghori bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno. Maent yn fodlon trafod y mater gyda ni a cyn 17/7/2020.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (17/7/2020) oddi wrth Rhun Jones ynglŷn mynedfa o'r ffordd i'r fynwent yn Tŷ Capel Hermon. Mae'r fynedfa mewn cyflwr gwael wedi llif y gaeaf yma. Y perchenog yw Mr Cameron, ac nid ydyw wedi gwneud dim gwaith i wneud y fynedfa yn dderbyniol hwyrach oherwydd gwnaethpwyd gwaith ar y fynedfa gan y cyn-berchennog, Mr David Parry, gwaith oedd i safon ofynion yr awdurdodau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION GORFFENNAF 21, 2020

Penderfynwyd ni all y Cyngor Cymuned gwneud dim ynglŷn â'r mater oherwydd mae ar dir preifat. Mae Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd, Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn rhoi sylw i'r mater.

e. Llythyr (17/7/2020) oddi wrth Rhun Jones yn holi beth yw diweddaraf ynglŷn â ffordd Lefel.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r diweddaraf i drwsio'r ffordd.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ceisiadau cynllunio

i. NP5/54/122D. Adeiladu estyniad cefn / ochr unllawr. Maes Meillion, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/6/2020).

ii. NP5/54/108E. Adeiladu estyniad yn lle ports presenol a simdde allannol Lloft y Bugail, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/6/2020).

b. Llythyr (22/6/2020) yn ymwneud â 'Llacio Cyfyngiadau Coronafirws - Ymgynghoriad Cymunedau'. Gyda Llywodraeth Cymru am lacio cyfyngiadau i ymwelwyr, mae'r Parc angen gwybod pa gyfyngiadau sydd ei angen. Maent angen gwybod cyn 29/6/2020.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## **8. Materion Ariannol**

a. Gydag awgrym yn cyfarfod mis Mehefin, anfonwyd i'r aelodau copi o Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019 – 20 oddi wrth Un Llais Cymru, a hefyd manylion cyflog y Clerc.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Medi.

b. Llythyr (12/5/2020) oddi wrth Tarian Cymru (grŵp sefydlwyd i godi arian ar gyfer offer amddiffyn (PPE)) i weithwyr iechyd Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Llythyr (8/7/2020) yn rhoi gwybod mae angen ysgrifennu'r siec i Siriol Teifi Edwards a bydd y siec yn cael ei throsglwyddo i gronfa Tarian Cymru. Wrth fynd i'r wefan Tarian Cymru mae angen rhoi yr arian i 'Donate Now' GoFund Me.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION GORFFENNAF 21, 2020

c. Llythyr (15/6/2020) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhyd-y-Main yn diolch am ein rhodd o £600.

ch. Derbyniwyd (2/6/2029) £157.00, ad-daliad TAW oddi wrth HMRC am y cyfnod 1/3/2018 – 31/1/2019.

d. Llythyr (13/7/2020) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol yn y dyddiau anodd hyn.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwerfor.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin, 2010: £1,141.23.

e. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2020: £4,071.90.

## **9. Archwilio**

a. Cafwyd neges (22/6/2020) oddi wrth Archwiliwr Mewnol yn dweud bod angen cyhoeddi taliadau aelodau ar y gwefan. Er nid oedd taliadau, roedd angen cyhoeddi a gwnaethpwyd hyn.

Derbyniwyd (23/6/2020) yr adroddiad gan yr Archwiliwr Mewnol.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

b. Anfonwyd (1/7/2020) dogfenau oedd eu hangen i BDO.

## **10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Mae anhwydeb i drigolion gyda gwasanaeth bws Dolgellau – Brithdir – Llanfachraeth wedi ei dorri i 8.30yb a chanol dydd unwaith yr wythnos. Cafwyd gwybod gan Cyngor Gwynedd mae hyn oherwydd Covid19 a phrinder gyrwyr bysiau. Mi fydd trafndiaeth i'r plant ysgol o fis Medi ond ni fyddent yn defnyddio bysiau cyhoeddus..

b. Rydym mewn cysylltiad â Guthrie Jones & Jones ynglŷn â Neuadd Llanfachreth.

## **11. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. mae dwy gwter ar ochr y ffordd rhwng Capel Ffrwd a Tyddyn Llywarch wedi cau. Mae hwn yn hen gwyn.

ii. mae angen ail peintio arwyddion ARAF / SLOW ar wyneb ffordd B4416 yn Brithdir. Mae angen yr un fath o arwydd rhwng yr hen ysgol gynradd a throad am Caerynwch oherwydd goryrru; mae angen yr arwydd ar ochr chwith wrth ddod o Brithdir.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION GORFFENNAF 21, 2020

iii. mae angen tocio coed ar ochr ffordd rhwng Tan y Foel a Penesgynfa, Llanfachreth.

b. Mae ychydig o ddifrod ar do loches fysis Bontnewydd gan gangen wedi syrthio arno. Cytunodd Barry Jones i archwilio.

c. Bydd cyfarfod mis Medi am 7.30yh fel yr arfer.

-----

Llofnod:

Dyddiad: